Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 37: 12-36

ADNOD ALLWEDDOL
Rhufeiniaid 6: 12

Gwers 2 Bywyd Joseff – Y Brodyr yn ei Gasáu

Ar ôl peth amser, dywedodd Jacob wrth Joseff am fynd at ei frodyr i weld sut yr oedden nhw a'r defaid. Roedden nhw wedi teithio'n bell iawn i chwilio am borfa newydd ar gyfer yr anifeiliaid. I ffwrdd â Joseff. Ar ôl peth amser, daeth o hyd iddynt.

C Ysgrifennwch beth ddywedodd ei frodyr pan welson nhw Joseff yn dod yn y pellter. .



2

Dyna ofnadwy! Roedd eu casineb at Joseff wedi tyfu a thyfu. Dyna mae pechod yn ei wneud bob amser. **Mae'n dechrau'n fach ond, os na ofynnwn ni i Dduw faddau i ni a chael gwared â'r pechod, bydd yn tyfu nes ei fod yn cymryd drosodd yn ein bywydau ni!**

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

2

Pan gyrhaeddodd Joseff, ceisiodd dau o'i frodyr gadw'r lleill rhag ei ladd.

C Rhowch eu henwau yn y llefydd iawn.

Pwy ddywedodd, "Peidiwch â'i ladd. Taflwch ef i'r pydew hwn"? (Adnodau 21 a 22)

2

_____

(Roedd yn bwriadu dod nôl i achub Joseff wedyn)

Pwy ddywedodd, "Gadewch i ni ei werthu"? (Adnodau 26 a 27)

_____ (Cytunodd ei frodyr)

GRID GEIRIAU

Llanwch y Grid Geiriau i gael gweld beth ddigwyddodd nesaf:-

I Lawr:
1. Pwy gafodd ei daflu i'r pydew?

Ar Draws:
1. Tad Joseff
2. Pa anifeiliaid oedd yn dod yn y pellter?
3. Pwy oedd yn dod gyda'r anifeiliaid?
4. O ble roedden nhw'n dod?
5. I ble roedden nhw'n mynd?



6

Cytunodd y brodyr nad oedden nhw am ladd Joseff ac felly, tra oedd y brawd hynaf, Reuben, i ffwrdd – yn gofalu am y defaid mae'n debyg, cafodd Joseff ei werthu i'r Ismaeliaid.

C **Lliwiwch y label pris cywir ar Joseff yn dangos am faint o siclau, neu ddarnau arian, y cafodd ei werthu.**



1

C **Dyma restr o bump o bethau a ddigwyddodd ar ôl i Joseff gael ei werthu. Rhowch y rhifau o 1 i 5 arnynt i ddangos y drefn gywir.**

- ☐ Roedd hiraeth mawr ar Jacob am ei fab.
- ☐ Fe ddywedon nhw gelwydd wrth eu tad ac awgrymu bod anifeiliaid gwyllt wedi lladd Joseff.
- ☐ Aeth Reuben yn ôl ac roedd wedi dychryn cymaint nes iddo rwygo ei ddillad.
- ☐ Roedd Jacob yn credu bod Joseff wedi marw.
- ☐ Wnaethon nhw drochi côt Joseff yng ngwaed gafr.

5

C **Edrychwch ar y Darlleniad o'r Beibl ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth wnaeth y marchnatwyr â Joseff.**

2

Daeth pechod y meibion â thristwch mawr i'w tad.
Os ydyn ni'n gas i bobl neu'n genfigennus ohonynt, byddwn yn dod â thristwch i ni'n hunain, i eraill ac i Dduw ei Hunan.
Yn nes ymlaen, dechreuodd y brodyr deimlo'n euog am yr hyn yr oedden nhw wedi'i wneud.
Ydych chi'n teimlo'n euog pan fyddwch wedi gwneud neu feddwl rhywbeth drwg?
Mae'n bwysig iawn cyffesu ein pechodau wrth Dduw a rhoi ein ffydd yn Iesu Grist a fu farw ar y groes fel y gallai Duw faddau i ni a'n glanhau ni oddi wrth ein holl bechodau.